Coleg Nyrsio Brenhinol
Cymru
Royal College of Nursing
Wales

ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES

# NURSE OF THE YEAR

AWARDS

RHAGLEN

# Gwobrau

DYDD IAU 21 TACHWEDD 2024

ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES
NURSE OF THE YEAR
AWARDS

GIG CYMRU NHS WALES — Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan / University Health Board

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

GIG CYMRU NHS WALES — Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr / University Health Board

CARDIFF UNIVERSITY / PRIFYSGOL CAERDYDD

GIG CYMRU NHS WALES — Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Cardiff and Vale University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES — Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg / University Health Board

Fieldbay — Part of the Ivolve Group

GIG CYMRU NHS WALES — Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) / Health Education and Improvement Wales (HEIW)

GIG CYMRU NHS WALES — Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda / University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES — Cyd-bwyllgor Comisiynu / Joint Commissioning Committee

MERCURE HOTELS

GIG CYMRU NHS WALES — Bwrdd Iechyd Addysgu Powys / Powys Teaching Health Board

GIG CYMRU NHS WALES — Iechyd Cyhoeddus Cymru / Public Health Wales

GIG CYMRU NHS WALES — Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe / Swansea Bay University Health Board

Tŷ Hafan — CHILDREN'S HOSPICE / HOSBIS I BLANT

University of South Wales / Prifysgol De Cymru

GIG CYMRU NHS WALES — Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre / Velindre University NHS Trust

GIG CYMRU NHS WALES — Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru / Welsh Ambulance Services NHS Trust

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES NURSE OF THE YEAR ALUMNI NETWORK

CLEARTECH live — Creative Events

seer design

# DIOLCH ARBENNIG GAN RCN CYMRU

**Heb ein noddwyr ni fyddai digwyddiad heno wedi bod yn bosibl.
Hoffai Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru ddiolch yn fawr iawn i bob un o'n noddwyr am ein helpu i ddathlu'r goreuon ym maes nyrsio yng Nghymru.**

Trwy lwyddiant y Gwobrau hyn, lansiodd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru Rwydwaith Cyn-enwebeion Nyrs y Flwyddyn Cymru yn swyddogol yn 2017. Mae Rhwydwaith y Cyn-enwebeion yn cynnig llwybr clir o gyfleoedd datblygu personol ac o ran gyrfa a sylw i'r rheini sydd wedi cyrraedd rownd derfynol y gwobrau. Mae'n creu grŵp brwdfrydig iawn o arweinwyr arloesol sy'n hyrwyddo nyrsio yng Nghymru ac yn allanol, yn y DU ac yn rhyngwladol.

Am ragor o wybodaeth e-bostiwch RCNWalesAlumni@rcn.org.uk

ROYAL COLLEGE OF NURSING IN WALES
NURSE OF THE YEAR
ALUMNI NETWORK

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn noddwr Gwobrau Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru 2025, cysylltwch â ni drwy e-bost yn nurseoftheyearawards@rcn.org.uk

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | 4 |
| **Meistr y Ddefod** | 5 |
| **Gwobr Cyflawniad Oes** | 6 |
| **Noddwyr ein Gwobrau** | 7-12 |
| **Cwrdd ag Enwebeion y Gwobrau** | |
| Gwobr Nyrs Gofrestredig – Plant | 13 |
| Gwobr Nyrsio Gofal Sylfaenol a Chymunedol | 14 |
| Gwobr Gwella Iechyd Unigolion a'r Boblogaeth | 15 |
| Gwobr Nyrs Gofrestredig – Anableddau Dysgu | 16 |
| Gwobr Nyrs Gofrestredig – Iechyd Meddwl | 17 |
| Gwobr Nyrsio'r Sector Annibynnol Suzanne Goodall | 18 |
| Gwobr Nyrsio Arbenigol | 19 |
| Gwobr Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd | 20 |
| Gwobr Addysg Nyrsio | 21 |
| Gwobr Myfyriwr Nyrsio | 22 |
| Gwobr Nyrs Gofrestredig – Oedolion | 23 |
| Gwobr Prif Swyddog Nyrsio Cymru | 24 |
| Gwobr Ymchwil, Arloesedd a Digideiddio ym maes Nyrsio | 25 |
| **Nyrs y Flwyddyn Cymru 2024** | 26 |
| **Cefnogi Ysgoloriaethau Nyrsio Cymru** | 27 |
| **Llongyfarchiadau** | 28-29 |


### Wi-Fi y Digwyddiad:

Dewiswch Mercure Wi-Fi a rhowch eich cyfeiriad e-bost, nodwch yr argymhellir eich bod yn defnyddio'r blwch ticio *'remember me'*.

# Rhagair

**Croeso i unfed digwyddiad ar ddeg Gwobrau Nyrs y Flwyddyn Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) Cymru. Mae'n wir anrhydedd cael ymgynnull ar gyfer y digwyddiad arbennig hwn sy'n dathlu ac yn cydnabod yn gyhoeddus ymroddiad diflino a gwaith caled nyrsys, bydwragedd a gweithwyr cymorth gofal iechyd ledled Cymru. Eleni, mae'n bleser gennym gynnal y digwyddiad yng ngwesty bendigedig Mercure Holland House, lleoliad newydd sy'n gweddu i'r dathliad mawreddog hwn.**

Mae 2024 wedi bod yn flwyddyn bwysig iawn i RCN Cymru, wedi'i nodi gan ffocws dwys ar faterion hollbwysig megis cyflog teg ar gyfer nyrsio, gofal coridor, a lefelau staffio diogel. Mae'r blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu'r heriau a wynebir gan ein haelodau, sy'n gweithio gydag ymroddiad a gwytnwch diwyro yn wyneb pwysau parhaus o fewn y system gofal iechyd. Mae RCN Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, yn ymgyrchu dros welliannau ac eirioli ar ran y proffesiwn, gan ymdrechu i sicrhau dyfodol mwy disglair i fyd nyrsio.

Mae'r digwyddiad heno yn brawf pwerus o gwmpas ac amrywiaeth rhyfeddol y rolau y mae nyrsys, bydwragedd a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn eu cyflawni wrth wasanaethu ein cleifion. O ofal clinigol ymgynghorol i gymorth tosturiol, mae'r ymroddiad a ddangosir gan bob un ohonoch yn dangos y gorau oll o'n proffesiwn. Mae straeon y rheini sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yn ein hysbrydoli ni i gyd ac yn dangos y cyfraniadau amhrisiadwy rydych yn ei wneud bob dydd i iechyd a lles pobl ledled Cymru.

I bob un sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yma heno, hoffwn eich llongyfarch yn fawr. Mae'r gwobrau hyn ar eich cyfer chi, gan anrhydeddu eich angerdd, dawn ac ymrwymiad i ddarparu gofal cleifion rhagorol. Mae eich ymroddiad yn haeddu'r dathliad hwn, ac rydym yn falch o gydnabod eich llwyddiannau eithriadol.

Yn olaf, hoffwn estyn fy niolch diffuant i'n noddwyr hael. Mae eich cefnogaeth barhaus yn gwneud y digwyddiad hwn yn bosibl, ac mae eich ymrwymiad i'r proffesiwn nyrsio yn cryfhau ein heffaith ar y cyd. Diolch i chi am sefyll ochr yn ochr â ni i anrhydeddu'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eithriadol hyn.

**Rwy'n edrych ymlaen at noson gofiadwy o ddathlu a chydnabyddiaeth i bawb!**



**Jackie Davies**
Cadeirydd Bwrdd RCN Cymru

Pencadlys RCN Cymru:
Tŷ Maeth, King George V Drive East, Caerdydd CF14 4XZ
RCN Swyddfa Gogledd Cymru:
Canolfan Fusnes Plas Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn LL29 8BF

INVESTORS IN PEOPLE®
We invest in wellbeing Silver

**Mae Jason Mohammad, y cyflwynydd teledu a radio'r BBC, yn un o'r cyflwynwyr y mae galw mwyaf am ei wasanaeth yn y byd digwyddiadau a hysbysebu.**

Yn fwyaf adnabyddus am ei rôl ar FINAL SCORE lle ceir sgoriau pêl-droed byw cyflym ar BBC One a'r brif raglen bêl-droed MATCH OF THE DAY a MOTD2, mae proffesiynoldeb, cynhesrwydd a hiwmor Jason yn ei wneud yn boblogaidd iawn gyda chynulleidfaoedd byw.

Mae'r cyflwynydd a aned yng Nghaerdydd hefyd wedi arwain rhai o ddigwyddiadau adloniant teledu mwyaf y BBC. Eleni, lansiodd Jason sioe bêl-droed Cynghrair y Pencampwyr newydd y BBC-a welodd timau gorau'r byd yn cystadlu yn y fformat cynghrair newydd, ymddangosodd ar ddarllediadau SuperSport o Ewro 2024 o flaen miliynau o wylwyr ledled y byd ac roedd yn gystadleuydd ar Celebrity Mastermind a Bridge of Lies gyda Ross Kemp.

O ystyried ei allu unigryw i gadeirio, cyflwyno a rhyngweithio-mae rhai o frandiau mwyaf y byd wedi defnyddio gwasanaeth Jason ar gyfer gwobrau a digwyddiadau gan gynnwys EE, HP, Jaguar Land Rover, UEFA, Mercedes a Maserati. Mae hefyd wedi'i benodi'n Ddirprwy Ganghellor Prifysgol Caerdydd yn ddiweddar. Enillodd hefyd House of Games a gyflwynir gan Richard Osman ar BBC Two. Mae wrth ei fodd yn sôn am hynny!

Mae Jason hefyd yn aelod balch iawn o deulu BBC Radio 2 yn ymuno â Zoe Ball, Vernon Kay a Dermot O'Leary fel un o'u lleisiau adnabyddus. Mae Jason yn cyflwyno GOOD MORNING SUNDAY ar Radio 2 rhwng 6am a 9am bob penwythnos ac yn cyflwyno'r EARLY BREAKFAST SHOW yn rheolaidd, hefyd ar Radio 2. Ef hefyd oedd sylwebydd gorsaf radio fwyaf y DU ar gyfer Cyngerdd Dathlu Coroni Ei Fawrhydi y Brenin yn Windsor yn 2023. Jason hefyd oedd y llais ar raglen arbennig ar BBC Radio 2 yn dilyn marwolaeth EM y Frenhines a chyflwynodd y Datganiad Cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer BBC One.

Mae Jason wrth ei fodd gyda'r cyfrwng radio a bydd yn aml yn cyd-gyflwyno Saturday Live ar BBC Radio 4, yn dewis ei 'Pick of the Week' a gwnaeth y rhaglen ddogfen The Ely Estate ar gyfer Radio 4 yn 2023. Mae hefyd wedi cyflwyno Gemau Olympaidd 2012, 2016 a Tokyo 2020 (2021), Gemau'r Gymanwlad 2014, 2018, 2022, rowndiau terfynol Cwpan yr FA, rowndiau terfynol Cwpan y Byd FIFA a gemau rygbi'r Chwe Gwlad. Mae Jason hefyd wedi cyflwyno i Channel 4 Sport a Chwpan Rygbi'r Byd i S4C. Mae wedi gwneud ffilmiau ar gyfer The One Show ac wedi cyd-gyflwyno Crimewatch BBC One gyda Sophie Raworth a Kirsty Young.

Mae Jason yn gweithio rhwng Llundain, Salford a Chaerdydd ac yn siaradwr Cymraeg rhugl -yn ymddangos yn gyson ar S4C. Mae ganddo hyd yn oed amser ar gyfer ei sioe ei hun ar BBC Radio Wales - lle mae'n cynnal rhaglen galwadau gan wrandawyr drwy gyfrwng y Saesneg.

Mae Jason wedi teithio'r byd gyda'r BBC yn arwain darllediadau teledu o Frasil i'r Unol Daleithiau i Awstralia ac mae yr un mor gartrefol yn cyfweld â Sêr Hollywood a sêr y byd cerddoriaeth ag y mae yn sgwrsio ag enwau pêl-droed mwyaf y byd.



Mae Jason yn Brif Swyddog Gweithredol cwmni cyfryngau y gwnaeth ei sefydlu ac yn ddiweddar creodd ei academi deledu ei hun fel rhan o hynny - gan feithrin y genhedlaeth nesaf o ddarlledwyr. Mae hefyd yn wneuthurwr ffilmiau brwd ar ôl gwneud llawer o raglenni dogfen teledu ledled y DU, Saudi Arabia, Iwerddon, Mecsico, yr Aifft a chyflwyno dwy raglen deithio hanesyddol o Jerwsalem.

Mae'n gefnogwr pêl-droed brwd iawn ac yn cefnogi Clwb droed Caerdydd.

**Jason Mohammad**

# GWOBR CYFLAWNIAD OES 2024

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

Mae'r wobr hon yn cydnabod Nyrs Gofrestredig eithriadol sydd wedi gwneud cyfraniad gydol gyrfa i ymarfer nyrsio, gan arwain at etifeddiaeth o ganlyniadau sy'n well ac yn gynaliadwy i unigolion, cymunedau, a'r boblogaeth ehangach

Bydd enwebeion y wobr hon hefyd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygiad nyrsio fel proffesiwn a werthfawrogir gan gymdeithas.

**Meini prawf ar gyfer y Wobr:** Bydd yr enwebai llwyddiannus wedi gwneud cyfraniad oes parhaus i ddatblygiad sylweddol nyrsio ar lefel genedlaethol a/neu ryngwladol. Cydnabyddir y nyrs fuddugol fel:

- Rhywun sy'n gallu dangos hanes da o arweinyddiaeth flaengar, a bydd wedi ysbrydoli ymarfer nyrsio uwch
- Rhywun sy'n arbenigwr yn ei maes/faes ac wedi cyflawni gwelliannau mesuradwy mewn ansawdd gofal.

**Cyhoeddir Gwobr Cyflawniad Oes 2024 yn y seremoni wobrwyo.**

## Yr enwebeion ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr 2024 yw:



**JANE HOPKINSON**
Athro Nyrsio a Gofal Canser Rhyngddisgyblaethol Felindre, Prifysgol Caerdydd ac Ymddiriedolwr Gofal Canser Tenovus



**CLAIRE HURLIN**
Pennaeth Cyflyrau Cymunedol a Chronig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



**LYNNE JONES**
Pennaeth Addysg Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe



**NEVA ANN PRICE**
Nyrs Arweiniol ar gyfer Datblygiad Proffesiynol, Is-adran Gofal Sylfaenol a Chymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan



**YVONNE WILLIAMS**
Hyfforddwr Sgiliau Clinigol, Tîm Profiad a Chynnwys y Cleifion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

## ENILLWYR GWOBRAU CYFLAWNIAD OES BLAENOROL

2013 **Helen Bennett** Nyrs Bwrdd Clinigol, Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
2014 **Daphne Meredith-Smith** Pennaeth Nyrsio Iechyd Meddwl, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
2015 **Brenda Scourfield** Nyrs Iechyd Ysgol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
2016 **Karen Logan OBE** Nyrs Ymgynghorol-Ymataliaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
2017 **Tanya Strange MBE** Nyrs Ranbarthol, Gofal Sylfaenol a Rhwydweithiau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
2018 **Yr Athro Ruth Northway OBE, FRCN** Athro Nyrsio Anableddau Dysgu, Prifysgol De Cymru
2019 **Angela Haley** Uwch Nyrs, Gwasanaethau Anadlol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
2021 **Caroline Whittaker RRC OStJ** Arweinydd Ansawdd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
2023 **Jill Paterson** Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Hirdymor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

## GWOBR CYFLAWNIAD OES

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn darparu gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, ysbyty ac iechyd meddwl i'r 450,000 o bobl sy'n byw mewn tair Bwrdeistref Sirol: Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed arbenigol ar gyfer De Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi bron i 12,000 o staff. Ein gweithlu yw enaid nid yn unig y Bwrdd Iechyd ond hefyd llawer o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn ystyried ein rôl fel un o gyflogwyr mwyaf yr ardal yn ddifrifol, ac mae hyn i'w weld yn amlwg yn ein gwaith partneriaeth eang, ein hymroddiad i'n cyfrifoldebau cymdeithasol corfforaethol a'r pwysigrwydd a roddwn ar feithrin cydberthynas â'n staff a'n cymuned.

Yng Nghwm Taf Morgannwg credwn mewn arloesi i wneud gwelliannau i ofal clinigol. Rydym yn arbennig o falch o'n Canolfan Academaidd ym Merthyr Tudful, sy'n helpu i hyfforddi meddygon y dyfodol mewn meddygaeth gymunedol.

## GWOBR NYRS GOFRESTREDIG – PLANT

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, gyda chyllideb o £1.87 biliwn a gweithlu o dros 19,000. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i dros 700,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydlynu gwaith 96 o bractisau meddygon teulu, a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan 78 o bractisau deintyddol ac orthodontig, 70 o bractisau optometreg ac optegwyr a 145 o fferyllfeydd yng Ngogledd Cymru.

## GWOBR NYRSIO GOFAL SYLFAENOL A CHYMUNEDOL

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn darparu gofal iechyd i boblogaeth o tua 384,000 yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'n darparu gwasanaethau acíwt, sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys ysbytai cyffredinol a chymunedol, canolfannau iechyd, cyfleusterau gofal iechyd cymunedol ac yng nghartrefi'r cleifion eu hunain.

Mae staff nyrsio a bydwreigiaeth cofrestredig yn cyfrif am tua 32% o weithlu'r Bwrdd Iechyd ac maent yn hanfodol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar brofiad gofal iechyd cleifion ar bob lefel – o'r effaith a gânt ar bolisi ac addysg yn genedlaethol i'r gofal a ddarperir ganddynt wrth erchwyn y gwely ac, yn gynyddol, yng nghartrefi'r cleifion.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

## GWOBR GWELLA IECHYD UNIGOLION A'R BOBLOGAETH

Noddir gan **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Iechyd Cyhoeddus Cymru yw asiantaeth iechyd y cyhoedd genedlaethol Cymru.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru.

Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth o Gymru iachach trwy gyflawni chwe blaenoriaeth strategol:

- Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd
- Hyrwyddo lles meddyliol a chymdeithasol
- Hyrwyddo ymddygiad iach
- Cefnogi datblygiad system iechyd a gofal cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar
- Darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhagorol er mwyn cynyddu iechyd y boblogaeth a thegwch iechyd
- Mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd y cyhoedd

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Swansea Bay University Health Board

## GWOBR NYRS GOFRESTREDIG – ANABLEDDAU DYSGU

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn darparu gofal ar gyfer tua 390,000 o bobl yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot gydag amrywiaeth o wasanaethau trydyddol, gan gyflogi tua 13,500 o staff. Mae ganddo dri phrif ysbyty – Treforys, Singleton a Chastell-nedd Port Talbot – ynghyd ag ysbyty cymunedol. Mae'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu mewn ysbytai a lleoliadau cymunedol ac mae ganddo gyfrifoldeb am ofal iechyd sylfaenol sy'n cynnwys meddygon teulu, deintyddion, fferyllfeydd ac offthalmolegwyr.

Mae BIP Bae Abertawe yn gartref i Ganolfan Llosgiadau a Llawfeddygaeth Blastig Cymru. Mae hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe a'i Hysgol Feddygaeth, Ysgol y Gwyddorau Dynol ac Iechyd a Sefydliad Gwyddor Bywyd 1 a 2.

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

## GWOBR NYRS GOFRESTREDIG - IECHYD MEDDWL

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cwmpasu ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'n gwasanaethu poblogaeth a amcangyfrifir sydd dros 639,000 o bobl, sef tua 21% o gyfanswm poblogaeth Cymru.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu a gweithredu modelau gofal newydd ac effeithiol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector i ymateb i anghenion newidiol pobl leol. Ei gynllun uchelgeisiol yw darparu mwy o ofal yn nes at gartrefi pobl, creu rhwydwaith o ysbytai lleol sy'n darparu gwasanaethau diagnostig a thriniaethau arferol a chanoli gwasanaethau gofal arbenigol a chritigol mewn un man yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, a agorodd ym mis Tachwedd 2020.

Mae BIP Aneurin Bevan wedi ennill enw da am fod yn sefydliad arloesol sydd â gwerthoedd cryf o gefnogi a datblygu staff. Mae nyrsys a bydwragedd ar bob lefel yn cael eu hannog a'u cefnogi'n gadarnhaol i arddangos syniadau, gwasanaethau, technolegau a pholisïau da sy'n cefnogi arfer ac yn gwella gofal cleifion.

## GWOBR NYRSIO'R SECTOR ANNIBYNNOL SUZANNE GOODALL

Noddir gan **Hosbis Plant Tŷ Hafan**

Tŷ Hafan
CHILDREN'S HOSPICE
HOSBIS I BLANT

Ar ôl ymddeol fel therapydd galwedigaethol, treuliodd Suzanne Goodall, sylfaenydd Tŷ Hafan, yr 11 mlynedd nesaf yn gwireddu ei gweledigaeth i sefydlu hosbis plant i Gymru.

Credai Suzanne, un o drigolion pentref Beddau, y dylai'r gofal a'r cymorth a ddarperir ar gyfer plant sydd â chyflyrau sy'n byrhau bywyd fod yn gyfannol, yn canolbwyntio ar y teulu ac ar gael, am ddim, pan a lle mae eu hangen fwyaf.

Uchelgais Tŷ Hafan yw pan fydd bywyd plentyn yn fyr na ddylai unrhyw deulu orfod ei fyw ar eu pen eu hunain, ac mae gweledigaeth Suzanne yn parhau i ysbrydoli nyrsys Tŷ Hafan a'r tîm gofal ehangach i ddarparu gofal a chymorth tosturiol i blant â chyflyrau sy'n byrhau bywyd a'u teuluoedd nid yn unig yn ei hosbis yn Sili, ond hefyd mewn ysbytai, cartrefi a chymunedau.

Mae'n deyrnged barhaol i Suzanne bod ei hathroniaeth yn parhau i fod yn sail i'r gofal a'r cymorth pwrpasol a ddarperir i bob plentyn y gofelir amdanynt a'u teuluoedd gan Dŷ Hafan fel bod pob bywyd, waeth pa mor fyr ydyw, yn cael ei fyw i'r eithaf ac atgofion parhaol yn cael eu creu.

## GWOBR NYRSIO ARBENIGOL

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn un o sefydliadau mwyaf y GIG sy'n cyflogi 17,000 o staff, y mae 43% ohonynt ym maes nyrsio a bydwreigiaeth.

Gan wasanaethu poblogaeth leol o 500,000 mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu ystod o wasanaethau iechyd a lles, yn amrywio o ofal sylfaenol a chymunedol i wasanaethau acíwt ac arbenigol iawn. Mae Caerdydd a'r Fro hefyd yn ddarparwr gwasanaethau trydyddol ar gyfer y boblogaeth ehangach ledled Cymru gan gefnogi gwasanaethau cymhleth megis niwrowyddorau, gwasanaethau cardiaidd, neffroleg a thrawsblaniadau, Gwasanaeth Rhywedd Cymru a'r Ganolfan Trawma Mawr. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ymfalchïo mewn arloesi ym maes gofal iechyd, gan gomisiynu'n ddiweddar Robot Versius i drin cleifion canser y colon a'r rhefr er mwyn gwella eu canlyniadau a'u hamseroedd adfer.

## GWOBR GWEITHWYR CYMORTH GOFAL IECHYD

Noddir gan **Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru**

GIG CYMRU NHS WALES
Cyd-bwyllgor Comisiynu
Joint Commissioning Committee

Mae Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (NWJCC) yn falch o noddi Gwobr Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd.

Mae Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn rhan hollbwysig a gwerthfawr o'r gweithlu, ac yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau a gofalu am gleifion.

Mae'r NWJCC yn gyfrifol am gomisiynu ystod eang o wasanaethau ar ran y saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Wedi'i sefydlu ar 1 Ebrill 2024, disodlodd y NWJCC dri thîm rhagflaenol: y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC), yr Uned Comisiynu Cydweithredol Genedlaethol, a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

O wasanaethau a ddefnyddir yn eang megis GIG 111 Cymru a gwasanaethau ambiwlans, i wasanaethau mwy arbenigol ar gyfer clefydau prin, mae'r NWJCC yn comisiynu tua 220 o wasanaethau.

Gan ymdrechu i fod yn ganolfan ragoriaeth comisiynu, ac ychwanegu gwerth i boblogaeth Cymru, nod y NWJCC yw gwella canlyniadau iechyd a gofal ledled Cymru drwy greu gwelliannau cynaliadwy a system gyfan sy'n gwneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl.

University of South Wales
Prifysgol De Cymru

## GWOBR ADDYSG NYRSIO

Noddir gan **Brifysgol De Cymru**

Mae Prifysgol De Cymru yn noddwr balch y wobr hon. Gyda thua 1,500 o fyfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth, rydym yn gyfranwyr balch ac ymroddedig i addysg ein gweithlu gofal iechyd. Mae cefnogaeth werthfawr clinigwyr mewn cefnogi ein myfyrwyr o fewn yr amgylchedd ymarfer yn rhagorol, ac rydym yn dathlu'r berthynas waith agos sydd gennym â'n partneriaid. Yn wir, ni fyddai llwyddiant ein rhaglenni cyn ac ôl-gofrestru yn bosibl heb yr ymroddiad a ddangosir gan academyddion a chlinigwyr yn cydweithio i gefnogi addysg gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth y dyfodol.

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

## GWOBR MYFYRIWR NYRSIO

Noddir gan **Addysg a Gwella Iechyd Cymru**

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yw'r corff addysg statudol a'r sefydliad gweithlu strategol ar gyfer GIG Cymru. Fel Awdurdod Iechyd Arbennig, mae gennym rôl allweddol o ran datblygu gweithlu gofal iechyd cynaliadwy. Gwnawn hyn trwy gynllunio a datblygu addysg a hyfforddiant a mynd i'r afael â chyfleoedd a risgiau gweithlu strategol ac arbenigol sy'n effeithio ar y galw am, a chyflenwad, gweithlu.

Mae nyrsys yn rhan sylfaenol o weithlu'r GIG, yn darparu gofal diogel o ansawdd uchel i bobl Cymru. Ar hyn o bryd, rydym yn gweld y niferoedd uchaf erioed yn cael eu haddysgu a'u hyfforddi i ddod yn Nyrsys Cofrestredig yng Nghymru. Mewn cydweithrediad â phartneriaid, mae AaGIC yn datblygu *Cynllun Gweithlu Nyrsio Strategol i Gymru*, a fydd yn cael ei lansio yn gynnar yn 2025 ac sy'n cyfrannu'n fawr at wella'r gweithlu nyrsio, gofal cleifion diogel ac o safon, a dyfodol GIG Cymru. Rydym hefyd wedi lansio *Cynllun Cadw Nyrsys*, sy'n cefnogi gwelliannau o ran cadw ein gweithlu nyrsio gwerthfawr.

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Powys Teaching Health Board

## GWOBR NYRS GOFRESTREDIG - OEDOLION

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cyflawni strategaeth uchelgeisiol a rennir ar gyfer "Powys Iach, Ofalgar" i gefnogi pobl leol i Ddechrau'n Dda, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda.

Gan gwmpasu sir wledig fawr, mae gofal cymunedol a sylfaenol yn flaenllaw ym mhopeth a wna gan weithio'n agos gyda Chyngor Sir Powys, corff y mae'n rhannu'r un ffiniau ag ef, yn ogystal â sicrhau perthynas weithgar â'r trydydd sector a gyda darparwyr gofal eilaidd a thrydyddol yng Nghymru a Lloegr.

Mae hyn yn golygu bod gweithio ym Mhowys yn cynnig cyfle unigryw ar gyfer creadigrwydd, arloesedd ac ymreolaeth glinigol a phroffesiynol i ddarparu cymaint o ofal a chymorth integredig mor agos i'r cartref â phosibl, ac i ddatblygu llwybrau gofal gyda darparwyr cyfagos sy'n cadw cleifion yn ganolog i'r gwaith.

Ble bynnag yr ydych yn byw yng Nghymru, mae Powys o fewn cyrraedd hawdd ac rydym yn cynnig croeso cynnes i chi i'n tîm cyfeillgar.

## GWOBR PRIF SWYDDOG NYRSIO CYMRU

Noddir gan **Brif Swyddog Nyrsio Cymru, Llywodraeth Cymru**

Mae Cyfarwyddiaeth Ansawdd a Nyrsio Llywodraeth Cymru, dan arweiniad y Prif Swyddog Nyrsio Sue Tranka, wedi ymroi i hyrwyddo safonau uchel o ansawdd gofal iechyd, diogelwch cleifion, ac ymarfer nyrsio proffesiynol ledled Cymru. Gyda chefnogaeth y Prif Swyddog Bydwreigiaeth, swyddogion nyrsio, y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, a thîm ehangach o weision sifil, mae'r gyfarwyddiaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol ar bolisi ansawdd, nyrsio a bydwreigiaeth. Mae'n cynnig cyngor proffesiynol arbenigol i Weinidogion ac uwch swyddogion, yn cefnogi datblygiad y gweithlu, ac yn gweithredu polisïau sy'n gwella gofal cleifion, twf proffesiynol, a chynaliadwyedd y gweithlu. Fel pennaeth nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, mae'r Prif Swyddog Nyrsio yn gosod yr agenda broffesiynol a chyfeiriad y proffesiynau hyn ar gyfer y dyfodol.

## YMCHWIL, ARLOESEDD A DIGIDEIDDIO YM MAES NYRSIO

Noddir gan **Brifysgol Caerdydd**

Ysgol ddeinamig ac arloesol sy'n cwmpasu ystod eang o broffesiynau gofal iechyd yw Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Caerdydd.

Mae'r Ysgol wedi ymrwymo i ddatblygu gwybodaeth gofal iechyd effeithiol sy'n gwella canlyniadau iechyd a gofal iechyd yn uniongyrchol i gleifion a theuluoedd. Mae'r Gyfadran a myfyrwyr yn ymfalchïo mewn dilyn ymchwil ac ysgolheictod o'r ansawdd uchaf ac sydd ar flaen y gad mewn trafodaethau gofal iechyd a pholisi ar lefelau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.

I fyfyrwyr yr Ysgol, mae natur amlddisgyblaethol eu hamgylchedd dysgu a mynediad at addysgu gan ymchwilwyr o fri rhyngwladol yn sicrhau eu bod yn dod yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol medrus, gwybodus a thosturiol sydd wedi ymrwymo i ethos o ofal seiliedig ar dystiolaeth.

## GWOBR NYRS Y FLWYDDYN CYMRU 2024

Noddir gan **Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn darparu ystod o wasanaethau arbenigol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ein nod yw darparu gofal rhagorol, dysgu ysbrydoledig a chefnogi pobl iachach. Mae darparu gofal o ansawdd a rhagoriaeth i'n cleifion a'n rhoddwyr wrth galon ein sefydliad. Y ddau wasanaeth craidd a ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yw'r canlynol:

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn darparu rôl genedlaethol mewn darparu gwasanaethau gwaed a thrawsblannu yng Nghymru. Mae'n gweithio i sicrhau bod rhodd gwaed y rhoddwr yn cael ei drawsnewid yn waed a chydrannau gwaed diogel ac effeithiol sy'n galluogi GIG Cymru i wella ansawdd bywyd ac achub bywydau miloedd lawer o bobl yng Nghymru bob blwyddyn.

Mae Gwasanaeth Canser Felindre yn darparu triniaethau a gwasanaethau canser anlawfeddygol arbenigol i bobl sy'n byw yn Ne-ddwyrain Cymru ac yn ehangach. Mae'r Ganolfan Ganser yn ganolfan driniaeth, addysgu, ymchwil a datblygu arbenigol ar gyfer oncoleg nad sy'n llawfeddygol, yn darparu cemotherapi, radiotherapi a thriniaethau cysylltiedig ac yn gofalu am gleifion ag anghenion gofal lliniarol arbenigol.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre hefyd yn lletya Technoleg Iechyd Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

## Gwobrau Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru: **Cinio**

Noddir gan **Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd, Prifysgol Bangor**

Mae'r Ysgol Gwyddorau Iechyd yn rhan o'r Coleg Iechyd a Meddygaeth. Ein cenhadaeth yw parhau i ddatblygu rhagoriaeth a thwf cynaliadwy yn ein rhaglenni addysg ac ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi gofal wedi'i lywio gan dystiolaeth a chynllunio polisi i ddiwallu'r anghenion sy'n newid ar gyfer darpariaeth iechyd a gofal yn yr unfed ganrif ar hugain. Rydym yn cyflawni hyn trwy gynnal ymchwil iechyd a gofal o'r radd flaenaf, ysgolheictod, ac addysgu sydd o'r safon uchaf a gwerth mwyaf i fyfyrwyr, ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid, gan gynnwys ein partneriaid dysgu ymarfer. Mae'r ysgol yn darparu ystod o raglenni perthynol i iechyd a gofal yn ogystal â nyrsio, ac rydym wedi gweithredu dysgu rhyngbroffesiynol dwyieithog yn llwyddiannus ar draws ein rhaglenni cyn-gofrestru. Rydym yn falch o dreftadaeth ddwyieithog Cymru a'n darpariaeth o raglenni addysgol dwyieithog, a'r modd yr ydym yn cynnal cymhwysedd ieithyddol a diwylliannol yn ein gwaith â phartneriaid rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.

## Gwobrau Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru: **Derbyniad Croeso**

Noddir gan **Fieldbay**

Mae Fieldbay, sy'n rhan o'r grŵp ivolve, yn arbenigo mewn gofalu am oedolion ag anghenion gofal cymhleth; cyflyrau iechyd meddwl, anableddau dysgu, cyflyrau niwrolegol hirdymor ac anafiadau i'r ymennydd. Rydym yn darparu gofal ar draws 5 sir, yn cwmpasu De a Gorllewin Cymru. Mae Fieldbay wedi tyfu o fod yn un cartref nyrsio bach i ddod yn brif ddarparwr gofal yng Nghymru, gan gefnogi dros 400 o unigolion ar draws 30+ o leoliadau gofal, a chyflogi dros 1,000 o gydweithwyr. Rydym yn darparu amrywiaeth o opsiynau gofal, gan gynnwys cartrefi nyrsio, gofal cartref a gwasanaethau byw â chymorth. Atgyfeirir defnyddwyr gwasanaeth o leoliadau cleifion mewnol a'r gymuned, yn ogystal â lleoliadau fforensig a darparwyr gofal eraill. Rydym yn sefydliad gwobrwyedig ac un a arweinir gan werthoedd; mae hyrwyddo caredigrwydd, gwytnwch ac angerdd am ofal gyda'r bobl yr ydym yn gofalu amdanynt wrth galon popeth a wnawn. Cefnogir ein gweithlu i dyfu a datblygu. Rydym yn gyflogwr sy'n gwrando, yn dysgu ac yn meithrin.

## Gwobrau Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru: **Blodau Digwyddiad**

Noddir gan **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) yw darparwr cenedlaethol gofal brys ac argyfwng cyn ysbyty i boblogaeth Cymru. Mae WAST yn darparu gwasanaethau cenedlaethol 999 ac 111 Cymru ac mae ganddo weithlu nyrsio cofrestredig sylweddol yn gweithio ochr yn ochr â pharafeddygon, technegwyr meddygol brys a gweithwyr cymorth gofal iechyd eraill. Mae nyrsys cofrestredig yn rhan hanfodol o'n gweithlu, gan arwain nifer o feysydd arbenigol a chyflawni rôl annatod wrth gefnogi gofal clinigol o bell ar draws gwasanaethau 999 ac 111 Cymru. Mae WAST wedi bod yn cynyddu nifer y nyrsys a bydwragedd mewn gwyrdd, gydag arbenigwyr a chyffredinolwyr yn chwarae rhan bwysig yn ein model clinigol sy'n esblygu i ddiwallu anghenion cynyddol gymhleth cleifion sy'n aml yn ein ffonio ni pan fyddant mewn argyfwng.

## Gwobrau Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru: **Diodydd Cinio**

Noddir gan **The Mercure Cardiff Holland House Hotel & Spa**

Gwesty 4 seren modern wedi'i leoli ym mhrifddinas fywiog Cymru yw The Mercure Holland House and Spa Caerdydd. Mae'n lleoliad cwbl addas ar gyfer eich anghenion busnes a hamdden, gyda'r cyfleuster cynadledda mwyaf yng Nghaerdydd â lle i hyd at 700 o westeion.

## SHARON DRISCOLL

*Uwch Ymarferydd Nyrsio Pediatrig a*

## REBECCA POWELL

*Dirprwy Reolwr Tîm Gofal Nes at y Cartref, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan*



**Mae prosiect Sharon a Rebecca i ddatblygu llwybr cymunedol ar gyfer babanod â chlefyd melyn yn arloesol a blaengar.**

Er ei fod yn ei gamau cynnar, mae'r prosiect yn dangos canlyniadau addawol ac yn cael ei wylio'n eiddgar ledled Cymru, gan y gallai hwn fod yn fodel ar gyfer y dyfodol.

Mae'r gwasanaeth Gofal yn Nes at y Cartref yn darparu gofal megis rhoi gwrthfiotigau'n fewnwythiennol a mewngyhyrol, gofal clwyfau, cymorth cywasgiad, cymorth anadlol a gofal llinell ganolog. Maent yn derbyn atgyfeiriadau gan ysbytai lleol ac ysbytai ymhellach i ffwrdd (gan gynnwys Ysbyty Plant Birmingham ac Ysbyty Great Ormond Street) sy'n golygu y gall plant gael eu trin yn nes at eu cartrefi yn hytrach na bod yn glaf mewnol mor bell i ffwrdd.

Yn ddiweddar dyfeisiodd Sharon a Rebecca lwybr newydd ar gyfer babanod â chlefyd melyn. Os bydd yn llwyddiannus, bydd yn golygu y gellir cynnal ffototherapi a phrofion gwaed cymharol yn y cartref. Mae'r llwybr hwn yn chwyldroadol, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fydd yr unig un sy'n cynnig y gwasanaeth hwn. Bydd teuluoedd yn gallu mynd â'u babanod adref a dechrau eu bywyd teuluol yn ddiogel ac yn gyfforddus gyda chymorth.

Mae Sharon a Rebecca yn angerddol ac yn ymroddedig i'r gwasanaeth ac yn awyddus i ehangu gyda mwy o lwybrau newydd, gan gyfarfod yn rheolaidd ag ymgynghorwyr pediatrig lleol i gael trafodaethau a chymeradwyaeth.

## KATIE MOORE

*Ymwelydd Iechyd Gwasanaeth Iechyd Meddwl Blynyddoedd Cynnar, Plant a'r Glasoed, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr*



**Mae Katie yn nyrs ac yn ymwelydd iechyd plant cofrestredig ymroddedig ac ysbrydoledig, a fanteisiodd ar gyfle prosiect peilot a'i droi'n un ei hun, gan fynd â'r canlyniadau a'r cyflawniad y tu hwnt i ddisgwyliadau.**

Datblygodd gwasanaethau Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yng Nghymuned Iechyd Integredig y Dwyrain Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr rôl Ymwelydd Iechyd Arbenigol yn y Tîm Blynyddoedd Cynnar fel prosiect peilot 12 mis. Mae Katie yn dal yn ei swydd ddwy flynedd a hanner yn ddiweddarach ar ôl ymateb i'r her gydag angerdd ac egni.

Gan weithio'n agos ag aelodau'r tîm amlddisgyblaethol, teuluoedd a phartïon trydydd sector, mae Katie wedi dangos y gallu i gyfathrebu ar lefel uchel a chwalu rhwystrau, gan wella sgiliau'r gweithlu ymwelwyr iechyd ehangach.

Cymhwysodd Katie fel Nyrs Plant Gofrestredig yn 2001, yna cwblhaodd ei chymhwyster Nyrs Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol yn 2005. Ers 2013 bu'n gweithio fel ymwelydd iechyd o fewn gwasanaeth Dechrau'n Deg, lle mae wedi bod yn hyrwyddwr dros iechyd meddwl ac wedi trefnu a chynnal diwrnodau iechyd, gyda ffocws ar iechyd meddwl rhiant-baban.

Mae Katie yn angerddol ynghylch ymyrraeth gynnar ac atal, a thrwy ei gwaith mae wedi cadw'r plentyn wrth galon popeth a wna ac wedi grymuso eraill i wneud gwahaniaeth.

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

# Gwobr Nyrsio Gofal Sylfaenol a Chymunedol



## KIM BAKER

*Arweinydd Tîm Nyrsys Clinigol Arbenigol Ymataliaeth Pediatrig, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro*

**Mae Kim wedi trawsnewid y Gwasanaeth Ymataliaeth Pediatrig Cymunedol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o fod yn fodel meddygol i fodel a arweinir gan nyrsys.**

Mae hyn wedi gwella gwasanaethau i blant a'u teuluoedd yn sylweddol, gyda llwybr gofal symlach i'w holl gleifion.

Mae'r newidiadau wedi ehangu cylch gwaith y gwasanaeth ac wedi sicrhau bod teuluoedd yn ganolog i benderfyniadau, ac mae Kim wedi recriwtio a hyfforddi tîm aml-sgiliau gan wella amseroedd aros ac ansawdd gwasanaeth.

Mae atgyfeiriadau i'r gwasanaeth ymataliaeth pediatrig acíwt wedi lleihau wrth i asesiad llawn o'r bledren gael ei gynnal lle bo angen, gan sicrhau mai dim ond plant â'r angen mwyaf sy'n cael eu hatgyfeirio. Fel arall darperir gofal gan y tîm cymunedol. Yn fwyaf diweddar mae Kim wedi bod yn datblygu clinigau pontio ar gyfer cleifion sydd angen cymorth parhaus gan y gwasanaeth ymataliaeth oedolion.

Mae rhestrau aros wedi lleihau'n sylweddol trwy ddefnyddio model hybrid ar gyfer apwyntiadau cleifion - wyneb yn wyneb, dros y ffôn, ymweliadau cartref ac ymgynghoriad fideo.

Yn wybodus ac yn brofiadol ar draws gwasanaethau trydyddol a chymunedol, mae Kim yn arloesol, yn ysbrydoledig, yn hawdd siarad â hi ac mae ei chymheiriaid yn ymddiried ynddi. Mae'n gadeirydd gwasanaeth Ymataliaeth Pediatrig Cymru Gyfan, cadeirydd Grŵp y Bledren a'r Coluddyn Pediatrig y De-orllewin ac mae'n aelod o'r Fforwm Ymataliaeth Pediatrig.



## JOANNE DAVIES

*Arweinydd Gwasanaeth Cwympiadau ac Iechyd Esgyrn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr*

**Mae Joanne wedi darparu gwasanaeth atal cwympiadau trawsnewidiol ym maes gofal sylfaenol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gyda dull rhagweithiol o ganfod dirywiad yn gynnar.**

Mae hi wedi datblygu dull seiliedig ar werth i hyrwyddo arfer gorau, lleihau amrywiadau a chanolbwyntio ar adnoddau cynaliadwy.

Mae hyn wedi cyfrannu at leihad o 46% mewn cwympiadau a 96% o gydymffurfiaeth ag asesiadau risg cwympo.

Yn 2018 gwnaeth ymestyn y gwasanaeth i gartrefi gofal ardal Wrecsam. Oherwydd llwyddiant y gwasanaeth, aliniwyd ardal Sir y Fflint â thîm y Dwyrain a chynigiwyd hyfforddiant a datblygiad i 24 o gartrefi gofal pellach. Yn 2021 ymestynnodd Joanne yr addysg i feddygon teulu, parafeddygon, nyrsys arbenigol, timau diogelu, gofal iechyd parhaus ac eraill.

Mae Joanne hefyd wedi datblygu dangosfwrdd cofrestr cwympiadau, sy'n galluogi aml-broffesiynau i weld beth sydd wedi'i gynnig i'r claf. Mae'r gofrestr yn lleihau dyblygu a gall atal pobl rhag bod ar restrau aros hir dim ond i ganfod bod angen ymyriad penodol arnynt. Mae GIG yr Alban bellach yn awyddus i fabwysiadu'r math hwn o gofrestr.

Mae gwaith trawsnewidiol Joanne yn gwella profiad y claf ac yn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig ag eiddilwch. Mae ei gweledigaeth arloesol wedi'i nodi dramor, a bydd ei gwaith yn cyfrannu at dreial ymchwil prifysgol.

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board



## JULIA SOMERFORD

*Uwch Nyrs ar gyfer Iechyd Corfforol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn a Niwroseiciatreg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro*

**Mae Julia wedi mynd y tu hwnt i'w rôl o drin cleifion yn uniongyrchol ac uwchsgilio nyrsys iechyd meddwl mewn ymyriadau iechyd corfforol trwy sefydlu llwybrau brys ar gyfer mynediad diogel ac amserol at ofal.**

Yn uwch nyrs iechyd corfforol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae'n gweithio yn y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn a Gwasanaeth Niwroseiciatreg Cymru Gyfan.

Helpodd Julia i ddatblygu rhaglen hyfforddi undydd ar gyfer rheoli claf sy'n dirywio, sydd wedi gwneud nyrsys iechyd meddwl yn fwy cymwys a hyderus mewn sefyllfaoedd brys.

Mae hi hefyd wedi nodi llwybr ar gyfer darpariaeth feddygol y tu allan i oriau ar gyfer cleifion mewnol. Yn hanesyddol, roedd y wardiau cleifion mewnol yn cael eu gwasanaethu gan y gwasanaeth ffôn meddygon teulu y tu allan i oriau. Ond roedd y cyngor a ddarparwyd yn berthnasol i'r gymuned ac nid oedd bob amser yn addas ar gyfer sefyllfaoedd meddygol cymhleth sy'n codi mewn systemau ysbytai acíwt.

Arweiniodd Julia brosiect a greodd weithdrefn newydd. Nawr, mae gan gleifion sy'n cwympo neu sy'n feddygol ansefydlog feddyg ysbyty enwebedig ar y safle sy'n cymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau clinigol - sefyllfa sy'n well i gleifion ac yn gliriach i nyrsys.

Mae Julia wedi ysgogi gwelliannau mewn atal cwympiadau trwy ddarparu hyfforddiant pwrpasol sydd i'w gyflwyno ar draws y bwrdd iechyd, mae hi wedi arwain rhaglenni imiwneiddio torfol ac mae'n angerddol ynghylch atal heintiau.



## CATHERINE WATTS

*Pennaeth Gwasanaethau Imiwneiddio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe*

**Defnyddiodd Catherine yr hyn a ddysgwyd o'r pandemig COVID-19 i ddod â brechiadau ac imiwneiddiadau yn nes at gymunedau a chartrefi pobl ac i wella cyfraddau brechu ar draws y bwrdd iechyd.**

Cyn y pandemig roedd Cath yn rhoi cyngor a chefnogaeth arbenigol ar gyfer yr holl raglenni brechu ar draws Bae Abertawe, sef unig gydlynydd imiwneiddio'r bwrdd iechyd bryd hynny. Roedd hi'n ganolog i weithredu'r rhaglen frechu torfol.

Helpodd i arwain ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, gan annog cofrestreion wedi ymddeol i ddychwelyd i'r gweithle i gefnogi'r gwaith o ddarparu brechiadau COVID-19, ymgyrch a fabwysiadwyd gan fyrddau iechyd eraill ledled Cymru.

Arweiniodd creadigrwydd Cath at sefydlu canolfan frechu symudol ar gyfer cymunedau anodd eu cyrraedd. Bu'n gweithio gyda rhanddeiliaid allanol i droi llyfrgell deithiol yn uned frechu symudol o'r enw 'Immbulance.'

Bu'n gweithio gyda'r tîm cyfathrebu i ddod â'r Immbulance yn fyw trwy ymgyrch cyfryngau cymdeithasol a phartneriaeth gymunedol. Arweiniodd hyn at gyfweliad ar raglen flaenllaw'r BBC The One Show.

Sicrhaodd Cath rôl pennaeth imiwneiddio, lle mae hi wedi datblygu tîm amlddisgyblaethol cryf a gweithwyr proffesiynol imiwneiddio sy'n falch o ddarparu hyfforddiant ac addysgu'r genhedlaeth nesaf o imiwnyddion.

Noddir gan **Iechyd Cyhoeddus Cymru**

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales



## CATHERINE DAVIES

*Nyrs Gyswllt Anabledd Dysgu, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys*

**Mae Catherine yn dangos agwedd 'gallaf wneud' yn gyson, sydd wedi bod yn arbennig o fuddiol i'w llwyddiant wrth arwain prosiect arloesol, gan wella iechyd a lles unigolion sydd ag anabledd dysgu.**

Nod ei phrosiect presennol yw cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y gwiriad iechyd anabledd dysgu blynyddol a'i ansawdd. Bydd hyn yn helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a marwolaethau y gellir eu hosgoi a'u hatal.

Trwy ddadansoddi data, mae Catherine yn nodi'r meysydd o angen a gall dargedu ei chymorth yn effeithiol, gan ddarparu'r gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir i'r rheini sydd ei angen.

Gan rannu'r sylfaen dystiolaeth a'r angen am newid ochr yn ochr â darparu pecynnau hyfforddi i staff practisau meddygon teulu, mae Catherine wedi meithrin cysylltiadau â chydweithwyr gofal sylfaenol yn gyflym. Mae data cyfredol yn dangos bod dros 90% o bobl sy'n hysbys i wasanaethau gofal eilaidd wedi cael gwiriad iechyd blynyddol.

Mae Catherine bob amser yn mynd y tu hwnt i ofynion ei rôl. Er enghraifft, mae wedi ymestyn hyfforddiant hyrwyddwr anabledd dysgu i bob adran o fewn y bwrdd iechyd.

Mae hefyd wedi ehangu i ddarparu hyfforddiant i gydweithwyr gofal cymdeithasol a Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ochr yn ochr â chyflwyno sesiynau i nyrsys practis a staff newydd gymhwyso ar y rhaglen tiwtoriaeth. Hyd yma mae Catherine wedi hyfforddi dros 500 o hyrwyddwyr anabledd dysgu ac mae ganddi lawer o sesiynau ar y gweill ar gyfer y dyfodol.



## KATRINA WIEGOLD

*Rheolwr Ward, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan*

**Mae Katrina wedi trawsnewid y gwasanaeth yn Nhŷ Lafant, uned asesu a thrin cleifion mewnol acíwt arbenigol y bwrdd iechyd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.**

Daeth yn rheolwr ward ym mis Ebrill 2023 ar adeg hynod heriol, yn dilyn ymweliad dirybudd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a nododd nifer o bryderon a'r angen am welliannau mewn sawl maes.

Ochr yn ochr â hyn roedd nifer o ddigwyddiadau diogelu, lefelau uchel o staff asiantaeth, llawer o achosion o salwch ac absenoldeb, diwylliant gwael, llesiant staff isel a sawl swydd wag allweddol.

Dechreuodd Katrina fel dirprwy reolwr ac o fewn misoedd camodd i fyny i fod yn rheolwr ward dros dro ac mae wedi trawsnewid y gwasanaeth yn llwyr. Mae Katrina wedi ymateb i'r her gyda chryfder, gostyngeiddrwydd, dewrder, didwylledd, tryloywder ac arweinyddiaeth dosturiol.

Mae hi wedi arwain ac ysbrydoli tîm oedd wedi teneuo, oedd â lludded torsturi ac a oedd â morâl isel trwy gyfnod heriol ynghanol llawer o graffu; ac mae wedi datblygu i fod yn dîm cydlynol gyda'r safonau uchaf a balchder yn eu gwaith.

Gwelwyd tystiolaeth o hyn mewn arolygiad diweddar gan AGIC (Ebrill 2024) pan nad oedd angen sicrwydd uniongyrchol ac roedd yr adborth yn hynod gadarnhaol.

Nododd yr arolygwyr yn benodol welliant yn ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth ers yr arolygiad diwethaf a chyfeiriwyd at staff, cleifion, teuluoedd ac aelodau ehangach o'r adran yn priodoli'r holl welliannau i Katrina.

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**

GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Swansea Bay University Health Board

# Gwobr Nyrs Gofrestredig – Iechyd Meddwl



## CORRINNA CULLEN

*Arweinydd Tîm Gwasanaeth Cof, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg*

**Mae Corrinna yn arloeswr ar gyfer nyrsio iechyd meddwl, sydd wedi arwain ar newid sefydliadol ac adolygiad o wasanaethau cof ar draws y bwrdd iechyd, gan leihau amseroedd aros mewn gofal dementia trwy gyflwyno nyrs arbenigol yn ei gwasanaeth.**

Mae'n arwain y gwaith o greu grwpiau ysgogi gwybyddol ar gyfer cleifion sy'n byw â nam gwybyddol, gan ymdrechu i ddarparu gwasanaeth cyfartal ar draws pob lleoliad a galluogi cleifion i gael gofal gartref cyhyd â phosibl.

Mae Corrinna yn dangos arweinyddiaeth wirioneddol mewn cydnabod cryfderau ei chydweithwyr, gan eu hannog i gyrraedd eu llawn botensial trwy ddysgu a mentora, ynghyd â sefydlu grwpiau lles ar gyfer staff, ar ôl cydnabod cyfleoedd i wella cyfraddau cadw o fewn y tîm.

Mae gan Corrinna strwythur rheoli llinell rhagorol; mae'n cael ei hystyried yn hawdd siarad â hi a bob amser yn barod i fynd yr ail filltir i staff a chleifion. Gan weithio gyda phob lefel ar draws y bwrdd iechyd mae disgleirdeb mewnol Corrinna yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Mae hi mor falch o fod yn nyrs bob amser, yn awyddus i wneud gwahaniaeth ac yn hunan-ysbrydoledig i fod yn fodel rôl ymroddedig a thosturiol i eraill. Trwy gyfleoedd datblygu a gwaith cydnabyddiaeth, roedd Corrinna yn falch i dderbyn swydd yr arweinydd tîm ac mae'n parhau i ddisgleirio yn ei rôl.



## MADELAINE WATKINS

*Nyrs Glinigol Arbenigol ar gyfer Seicosis mewn Oedolion Hŷn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro*

**Mae Madelaine wedi gwella canlyniadau ar gyfer grŵp o gleifion a oedd wedi'i anwybyddu mewn rôl nad oedd yn bodoli tan bedair blynedd yn ôl.**

Yn 2018 gweithiodd Madelaine ar archwiliad a ddangosodd fod gan 18% o ddefnyddwyr y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn broblem seicosis sylfaenol, a dim ond 10% o'r rheini oedd yn cael mynediad at therapi.

Dangosodd ymchwil pellach fod 50% o staff iechyd meddwl cymunedol eisiau mwy o hyfforddiant ar seicosis.

Cafodd Madelaine y dasg o dreialu rôl nyrs glinigol arbenigol. Gwnaeth ei hymyriadau wella mynediad ac ymgysylltiad pobl, gan leihau eu trallod yn sylweddol a gwella eu hadferiad. Yna sicrhawyd cyllid i wneud y rôl yn un barhaol.

Heb unrhyw ddarpariaeth gwasanaeth seicosis ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl dros 65 oed yng Nghymru, mae Madelaine yn darparu strategaethau arloesol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan ganolbwyntio ar ddulliau cyfannol a gwella trawma.

Datblygodd Madelaine hefyd lwybr dysgu a datblygu ym maes seicosis ar gyfer staff a darparodd hyfforddiant gan gynnwys dull y Rhwydwaith Clywed Lleisiau, dull byd-eang a arweinir gan gymheiriaid ar gyfer byw ochr yn ochr â lleisiau. Mae'n darparu therapi ymddygiad gwybyddol, ymwybyddiaeth ofalgar, dadsensiteiddio ac ailbrosesu symudiad llygad ac ymyriadau teuluol.

Mae hi wedi darparu hyfforddiant a gweithdai i staff o bob gradd ac mae bellach yn datblygu perthynas gyfatebol â sefydliadau trydydd sector ledled y byd.

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Gwobr Nyrsio'r Sector Annibynnol Suzanne Goodall



## KIERA JONES

*Nyrs Arweiniol, Hosbis Skanda Vale*

**Mae Kiera yn eiriolwr ymroddedig ac angerddol dros ofal lliniarol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'n gweithio oriau ychwanegol yn wirfoddol ac wedi codi dros £13,000 ar gyfer yr uned hosbis chwe gwely annibynnol.**

Mae neidiau parasiwt, teithiau mynydd, cydlynu a rhoi therapïau cyflenwol, pobi a digwyddiadau pen-blwydd i gyd yn ffyrdd y mae Kiera wedi helpu i gasglu arian.

Mae'n arwain trwy esiampl, yn glanhau toiledau neu'n gwneud brecwastau neu'n siopa am hoff fwydydd cleifion, yn dod â'i chlipwyr ei hun i mewn er mwyn eillio pen rhywun - beth bynnag sydd ei angen i ddarparu safon ragorol o ofal i gleifion, eu teuluoedd a'u ffrindiau.

Mae hi'n cefnogi aelodau'r tîm i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau, ac mae'n datblygu ei gwybodaeth a'i sgiliau ei hun yn barhaus er mwyn sicrhau arfer cyfoes sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae Kiera yn eiriolwr cryf dros ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o fewn y tîm, gan hyrwyddo a galluogi aelodau'r tîm i addasu er mwyn sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a er mwyn gwaith, ac ymestyn tosturi a gofal cyfannol i'r tîm pan fo angen.

Mae Kiera hefyd wedi ymrwymo i agor sgyrsiau gyda'r cyhoedd yn ehangach am farwolaeth a marw. Mae hi wedi annerch grwpiau cymunedol trwy sgyrsiau a gweithdai, ac mae'n Fydwraig Enaid, yn cynnig cymorth anghlinigol i bobl a'u teuluoedd wrth iddynt wynebu diagnosis terfynol.



## ANGELA OWEN

*Arweinydd Datblygu Nyrsys, Elysium Healthcare*

**Mae Angela yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu cynaliadwyedd ym maes gofal iechyd.**

Trwy wreiddio cynaliadwyedd mewn rhaglenni arweinyddiaeth a hyfforddiant, mae'n helpu i newid y ffordd y mae gofal iechyd yn gweithredu yn y dyfodol i ddod yn wyrddach a chynnal yr egwyddor sylfaenol o beth yw bod yn nyrs trwy wneud dim niwed.

Mae Angela wedi datblygu ei gwybodaeth ei hun yn y pwnc sy'n dod i'r amlwg hwn trwy gwblhau Rhaglen Arweinyddiaeth Gofal Iechyd Gwyrdd Cronfa Florence Nightingale a rhaglen arweinyddiaeth cynaliadwyedd academi arweinyddiaeth y GIG ar gyfer iechyd a gofal gwyrddach.

Mae hi wedi cydlynu gweminar, gan ddod ag Elysium Healthcare a byrddau iechyd GIG Cymru at ei gilydd i drafod yr argyfwng hinsawdd yng nghyd-destun gofal iechyd a'i rôl wrth gyfrannu at allyriadau carbon.

Ystyriodd hefyd y cysylltiad rhwng newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth ac iechyd y boblogaeth. Mae Angela yn allweddol wrth arwain Elysium yng Nghymru i feddwl am rôl nyrsys a gweithwyr gofal iechyd wrth liniaru'r newid yn yr hinsawdd.

Mae hi wedi ymchwilio i ddarpariaeth hyfforddiant Elysium Healthcare ac wedi arbed nwyon tŷ gwydr (ac arian) trwy symud rhai yn nes at adref ac ar-lein.

Mae Angela hefyd wedi datblygu, ac yn parhau i gyflwyno, rhaglen i weithwyr gofal iechyd ddatblygu eu sgiliau, gan weithio tuag at fod yn arweinwyr yn eu maes, gan gynnwys cynaliadwyedd mewn gofal iechyd.

Noddir gan **Hosbis Plant Tŷ Hafan**

Tŷ Hafan
CHILDREN'S HOSPICE
HOSBIS I BLANT

# Gwobr Nyrsio Arbenigol



## DIANA MEHREZ

*Arweinydd Rhaglen Addysg Glinigol Lymffoedema ac On the Ground, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro*

**Mae Diana yn gweithio'n ddiflino i roi sylw i wasanaethau lymffoedema nad ydynt yn cael eu cydnabod ddigon er mwyn gwella gofal cleifion.**

Mae ei ffocws ar hyfforddi nyrsys cymunedol i reoli lymffoedema yn effeithiol, atal dirywiad y claf a lleihau'r angen am ymyrraeth gofal eilaidd.

Yn ei rôl ddeuol mae'n cydweithio â darparwyr gofal sylfaenol, gan gynnwys meddygon teulu, nyrsys ardal (a nyrsys hyfywedd meinwe) i roi Rhaglen Addysg On the Ground ar waith.

Mae ei dull cydweithredol yn ymestyn yn ehangach i gynnwys meysydd fasgwlaidd a podiatreg, gan greu llwybrau newydd ar gyfer rheoli ac atgyfeirio cleifion. Mae hi hefyd wedi darparu hyfforddiant i nyrsys gofal y fron i'w helpu i adnabod yr arwyddion a'r symptomau.

Mae hi wedi datblygu gweithdrefnau gweithredu safonol a threfn lywodraethu glir ar gyfer y gwasanaeth, gan gynnwys llwybrau dilyn i fyny a gychwynnir gan gleifion. Mae ei gwaith wedi gwella effeithlonrwydd a thegwch i gleifion ac wedi gwella rheolaeth rhestrau aros.

Mae Diana yn casglu mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion a mesurau profiad a adroddir gan gleifion yn ystod pob rhyngweithiad â chlaf. Mae'r dull hwn sy'n canolbwyntio ar y claf hefyd yn sicrhau y gwneir penderfyniadau ar y cyd mewn perthynas â chynlluniau gofal a chanlyniadau sy'n wirioneddol bwysig i gleifion.

Mae'n cynnal sgyrsiau anodd mewn modd tosturiol ac yn gwneud hyn tra'n rheoli llwyth achosion clinigol hynod gymhleth, gan roi anghenion cleifion yn gyntaf bob amser, ac yn ddiweddar trawsnewidiodd ei hymroddiad fywyd claf sy'n gaeth i'r tŷ sydd â phroblemau iechyd meddwl difrifol.



## TIM NICHOLLS

*Nyrs Clinigol Arbenigol mewn Dementia, Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro*

**Ers cael ei benodi i'w rôl fel Nyrs Clinigol Arbenigol ddwy flynedd yn ôl, mae Tim wedi datblygu'r rôl gan ddefnyddio arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.**

Mae wedi cyflwyno grwpiau ysgogi gwybyddol, sef yr unig ymyriad seicolegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer dementia.

Mae Tim hefyd wedi'i hyfforddi ym Model Newcastle sy'n rhoi fformiwleiddiad person, ei sefyllfa, ei heriau, pwy ydyw fel person a beth sy'n bwysig iddo ef neu hi yng nghyd-destun ei salwch.

Mae Tim wedi cyflwyno sesiynau cerddoriaeth a dawns i'r ward trwy ymgysylltu ag elusennau lleol, ac mae'r rhain wedi gwella hwyliau ac ymgysylltiad cleifion.

Mae hefyd wedi cydweithio â myfyrwyr celf y brifysgol i ddarparu sesiynau celf, sydd wedi lleihau stigma a chodi ymwybyddiaeth. Mae'r gwaith a ddeilliodd o hyn yn cael ei arddangos yn gyhoeddus ar hyn o bryd yn oriel gelf cyntedd yr ysbyty.

Mae Tim hefyd yn arwain prosiect newydd ar reoli poen. Cafodd ei ysbrydoli gan raglen Radio 4 am ddefnyddio adnabyddiaeth wyneb i ganfod poen, sy'n arbennig o arwyddocaol oherwydd gall poen arwain at lefelau uchel o drallod, ymosodedd neu ddiddyfnu mewn dementia.

Bydd canlyniadau'r prosiect yn cael eu mesur trwy archwiliad i asesu poen, defnydd gwrthseicotig, defnydd benzodiazepine, lleddfwyr poen a gostyngiad posibl mewn cwympiadau.

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cardiff and Vale University Health Board

# Gwobr Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd



## SARAH BISP

*Gweithiwr Cymorth Gofal Sylfaenol, Gwasanaeth Cof, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg*

**Cymerodd Sarah yr awenau – o dan oruchwyliaeth y nyrs gymwys – wrth ddatblygu'r Grŵp Ysgogi Gwybyddol ym Merthyr.**

Cynlluniwyd y rhaglen grŵp hon, a fwriedir i wella cymhelliant, hyder a hwyliau pobl sydd â dementia ysgafn i gymedrol, fel rhaglen saith wythnos, ond mae bellach wedi'i haddasu ar gyfer defnydd rhyngwladol tymor hwy.

Mae Sarah yn cefnogi'r unigolion hyn i barhau i gymryd rhan yn gymdeithasol, ac mae llawer o enghreifftiau o Sarah yn helpu pobl i adennill eu hyder a'u gallu i gymdeithasu yn eu cymuned.

Disgrifir Sarah fel gweithiwr cymorth gofalgar, tosturiol ac empathetig iawn. Mae'n berson cyfeillgar a chalonogol a bydd wastad yn gweld y gorau ym mhob sefyllfa, gan ymgymryd â heriau bob amser i wella canlyniadau cleifion.

Mae hi'n chwaraewr tîm sy'n defnyddio ei mentergarwch ac mae'n aelod brwd iawn o'r staff. Mae Sarah yn falch o'i phroffesiwn ac yn cael ei hystyried yn fodel rôl i eraill.

Mewn adborth, disgrifiodd cleifion hi fel un sy'n 'werth y byd'. Wrth weithio gyda chleifion â dementia mae hi wedi helpu i ddod â gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a dull seiliedig ar dystiolaeth i sylw amlwg. Mae hi wedi dangos dealltwriaeth wirioneddol o effaith dementia ar gleifion a'u teuluoedd.



## LOUISE GRAY

*Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan*

**Ar ôl bod yn gynghorydd lles, addasodd Louise yn gyflym i rôl newydd i ddod yn imiwneiddiwr medrus yn y Ganolfan Brechu Torfol yn ystod pandemig COVID-19, gan ddarparu addysg, cyngor a hybu iechyd.**

Yng Nghanolfan Iechyd Trefddyn mae Louise yn cefnogi'r gwasanaeth a arweinir gan nyrsys pan fo angen, gan gynnig gwasanaethau sy'n cynnwys gorchuddion ôl-lawdriniaethol, gwythïen-bigo, gofal clwyfau a chefnogi clinigau rheoli clefydau cronig.

Mae Louise hefyd wedi helpu ac yn parhau i weithio'n agos i gydlynu nyrsio anadlol, cynnal profion sbirometreg, rhag-asesiadau, gwiriadau ar ôl gosod ocsigen yn y cartref a chefnogi'r canolfannau sbirometreg arloesol. Trwy gydol y pandemig, cefnogodd y tîm ocsigen i gynnal asesiad risg a rhoi cyngor hunanreoli yng nghartrefi cleifion.

Mae hi wedi casglu oes o brofiad a chyfoeth o gydnabyddiaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'n wynebu heriau yn uniongyrchol ac yn addasu ei harddull gweithio i ddiwallu anghenion cyfnewidiol y gwasanaeth iechyd, gan wneud cyfraniad parhaol yn ei maes gwaith.

Mae ganddi bersonoliaeth gadarnhaol, sgiliau cyfathrebu rhagorol ac mae'n mwynhau addysgu a datblygu gweithwyr cymorth gofal iechyd eraill, staff a myfyrwyr, mewn hunanreoli a rheoli clefydau.

Noddir gan **Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru**

GIG Cymru NHS Wales | Cyd-bwyllgor Comisiynu | Joint Commissioning Committee

# Gwobr Addysg Nyrsio



## JILL BARNES

*Pennaeth Rheoleiddio Proffesiynol, Prifysgol De Cymru*

**Mae Jill wedi bod yn arweinydd nyrsio ymroddedig a dylanwadol ers dros 40 mlynedd, gyda'i heffaith yn cyrraedd myfyrwyr, cofrestreion ac yn y pen draw cleifion a'u teuluoedd ledled Cymru a y DU.**

Yn dilyn cyfnod fel nyrs staff a phrif nyrs ward yn Llundain, symudodd Jill i fyd addysg. Mae hi wedi gweithio'n ddiflino gyda rhanddeiliaid i weithredu cwricwla seiliedig ar dystiolaeth sy'n arfogi cofrestreion ar gyfer gofynion ymarfer cyfoes. Mae hi wedi dysgu ar lefel gradd ac ôl-radd.

Yn ystod ei chyfnod fel addysgwr nyrsio, mae Jill wedi goruchwylio gweithrediad sawl cwricwlwm nyrsio, yn ogystal â dwy garreg filltir nodedig yn y proffeswn. Yn ystod y 1990au cynnar bu Jill yn ymwneud â sefydlu Prosiect 2000 a welodd drosglwyddiad addysg nyrsio o ysgolion mewn ysbytai i sefydliadau addysg uwch.

Yn ddiweddarach, roedd Jill ar flaen y gad mewn darpariaeth nyrsio i raddedigion yng Nghymru, gan gydweithio â'r Athro Donna Mead OBE i ddatblygu a gweithredu cwrs BSc (Anrh) Nyrsio a welodd ei raddedigion cyntaf yn 2000.

Mae ei gwybodaeth helaeth am brosesau sicrhau ansawdd, llywodraethu a rheoleiddio proffesiynol wedi bod yn amhrisiadwy mewn sicrhau bod safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu cynnal yn drylwyr. Nid yw hyn yn fwy amlwg nag yn ei gwaith pwysig ar greu Dogfennaeth Asesu Ymarfer Cymru Gyfan.



## LISA FRANKLIN

*Pennaeth Addysg, Diwylliant a Datblygiad Sefydliadol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro*

**Mae Lisa wedi trawsnewid yr isadeiledd addysgol yn ei rôl ac mae ganddi restr o gyflawniadau trwy gydol ei gyrfa.**

Bu'n ddylanwadol wrth ddatblygu'r Rhaglen Addysg Adferol Genedlaethol ac arweiniodd ar lawer o fentrau addysg fel uwch ymarferydd addysg, gan gynnwys cyflwyno rôl yr ymarferydd cynorthwyol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Yn ddiweddar, mae Lisa wedi arwain y gwaith o greu rhwydwaith hyfforddi i gefnogi arweinwyr nyrsio sydd newydd gael dyrchafiad.

Dangosodd arweinyddiaeth ragorol fel cadeirydd Grŵp Arweinwyr Addysg Nyrsio Cymru Gyfan, gan arwain at welliannau sylweddol mewn gofal cleifion ac addysg nyrsio.

O dan ei chyfarwyddyd, rhoddwyd y Fframwaith Dysgu Ymarfer cenedlaethol ar waith ym mis Ionawr 2022, a chwaraeodd ran hollbwysig yn y gwaith o gynllunio'r Fframwaith Llywodraethu Ymarferwyr Cynorthwyol.

Yn 2023 bu'n gweithio gydag eraill i wella profiad myfyrwyr trwy gyflwyno rôl uwch reolwr addysg i fynd i'r afael â materion myfyrwyr.

Arweiniodd Lisa'r gwaith o greu rhwydwaith hyfforddi i gefnogi arweinwyr nyrsio a ddyrchafwyd yn ddiweddar, gan gydnabod y diffygion hyfforddi a oedd wedi dod i'r amlwg oherwydd y pandemig.

Dyfeisiodd gynnig i greu Canolfan Ragoriaeth ar gyfer Addysg a Datblygiad Sefydliadol BIP Caerdydd a'r Fro, y bwriedir iddi ddechrau'n fuan.

Noddir gan **Brifysgol De Cymru**

University of South Wales
Prifysgol De Cymru



## EMILY HOSKINS

*Myfyriwr Nyrsio (Plant), Prifysgol De Cymru*

**Mae Emily yn fyfyriwr nyrsio eithriadol a wnaeth wahaniaeth sylweddol i fywyd claf ifanc pan ddangosodd ofal mewn sefyllfa frys, llawn straen.**

Cafodd ei chanmol gan barafeddygon a fynychodd leoliad digwyddiad taro a ffoi lle'r oedd bachgen 13 oed wedi'i anafu'n ddifrifol.

"Dangosodd Emily y fath broffesiynoldeb a meddwl cyflym," meddai'r parafeddygon. "Nid yn unig y gwnaeth helpu i gymryd rheolaeth o sefyllfa drawmatig iawn ond roedd y gofal a ddarparodd cyn ac ar ôl i'r gwasanaeth brys gyrraedd yn rhagorol. Dilynodd ein cyfarwyddiadau a pharhaodd i fod yn rhan weithredol o ddadebru a thrin y claf nes i ni adael y lleoliad. Yn ogystal â hyn arhosodd yn y lleoliad a gwneud yn siŵr bod eraill a welodd y digwyddiad yn iawn ar ôl i'r claf gael ei gludo i Ysbyty Athrofaol Cymru."

Tra'r oedd Emily yn delio â dioddefwr damwain a oedd wedi'i anafu'n ddifrifol, dychwelodd y troseddwr i'r lleoliad, ceisio atal y dadebru cardio-anadlol ac ymosod ar lafar arni hi ac eraill oedd o gwmpas. Er gwaethaf hyn, rhoddodd Emily ofal eithriadol gan fynd y tu hwnt i'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl.

Yn rhan o garfan nyrsys plant dan hyfforddiant a ddechreuodd ym mis Ionawr 2022, mae Emily bob amser wedi bod yn fyfyrwraig gydwybodol sydd wedi cael adolygiadau disglair o'r holl feysydd clinigol y mae hi wedi'u mynychu.



## AIMEE ROBINSON a CLAIRE WELCH

*Myfyrwyr Nyrsio (Anableddau Dysgu), Prifysgol De Cymru*

**Mae Aimee a Claire yn helpu i gefnogi'r Pwyllgor Ymgynghorol Addysgu ac Ymchwil (TRAC) – grŵp cynghori dynion a menywod ag anableddau dysgu, y mae eu gweithgareddau'n cynnwys cyfweld, ac addysgu myfyrwyr yn yr ystafell ddosbarth a lleoliadau efelychu.**

Mae hyn yn gofyn am gydlyniad, creadigrwydd a chefnogaeth sylweddol. Mae un aelod o TRAC yn disgrifio Aimee ac Claire fel rhai ymroddedig a 'rhagorol i'w cael o gwmpas'. Yn ôl yr adborth gan fyfyrwyr, mae mewnbwn gan aelodau TRAC yn gwella eu dysgu yn sylweddol.

Mae Aimee a Claire yn datblygu perthynas gadarnhaol â lleoliadau clinigol, ac mae adborth o'u cyfnodau ar leoliad wedi bod yn rhagorol bob amser.

Yn ddiweddar, ymgymerodd Aimee a Claire â rôl gweithwyr allgymorth i hyrwyddo nyrsio anabledd dysgu, a hefyd y cwrs ym Mhrifysgol De Cymru. Maent wedi cysylltu â gwasanaethau allweddol megis Gofal Cymdeithasol Cymru a Gyrfa Cymru i drefnu gweithdai a chyflwyniadau i wahanol grwpiau gan gynnwys gofal cymdeithasol, myfyrwyr ysgol a choleg a'r rheini sy'n gadael gofal.

Maent wedi hyrwyddo'r maes i dros 1,000 o unigolion, sydd wedi cael effaith sylweddol ar niferoedd myfyrwyr ledled Cymru eleni gyda Phrifysgol De Cymru yn cyrraedd ei nifer a gomisiynwyd ar gyfer Medi 2024.

Mae Aimee a Claire yn fyfyrwyr anabledd dysgu gwirioneddol ysbrydoledig, angerddol ac ymroddedig, yn benderfynol o wneud gwahaniaeth gwirioneddol a gwella'r gofal i bobl ag anableddau dysgu.

Noddir gan **Addysg a Gwella Iechyd Cymru**

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Gwobr Nyrs Gofrestredig – Oedolion



## JADE COLE

*Nyrs Glinigol Arbenigol Arweiniol ar gyfer Gofal Critigol / Trawma Mawr / Arweinydd Ymchwil yr Adran Achosion Brys, Ymchwil a Datblygu Gofal Critigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro*

**Mae Jade wedi bod yn ffigwr allweddol mewn arloesi ym maes ymchwil gofal critigol, yng Nghymru ac yn fyd-eang.**


Mae hi wedi gweithio mewn llawer o rolau yn ei 20 mlynedd ym maes gofal critigol, ond mae ei gwaith yn datblygu ymarfer ymchwil ar draws ei bwrdd iechyd wedi bod yn ddim llai na rhyfeddol.

Mae'n enghraifft bersonol o ddatganiad gweledigaeth ei thîm - "Mae ymchwil yn bwysig; mae cleifion yn bwysig."

Yn ystod y pandemig, Jade oedd unig aelod o'i thîm y caniatawyd iddi fynd i mewn i'r uned gofal dwys i gynnal treialon clinigol a lywiodd sut roedd cleifion COVID-19 yn cael eu trin. Helpodd ei gwaith i ddangos bod mantais o ran goroesi i gleifion y rhagnodwyd cyffur penodol iddynt.

Mae Jade hefyd wedi hwyluso ymchwil arloesol sydd wedi achub llawer o fywydau ac sydd wedi cael sylw mewn adroddiad gan y BBC. Mae ei gwaith wedi'i gyhoeddi mewn rhai o gyfnodolion mwyaf uchel eu parch yn y byd gan gynnwys y New England Journal of Medicine, ond mae'n parhau i fod yn wylaidd, yn garedig, yn ofalgar ac yn broffesiynol.

Yn ddiweddar, mae Jade wedi bod yn ddarlithydd gwadd ym Mhrifysgol Caerdydd lle dywedodd un myfyriwr: "Mae hi'n anhygoel, rydw i eisiau bod fel hi!". Mae hi'n falch o allu ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o nyrsys, meddygon ac eraill, o fewn maes ymchwil.



## DONNA MAJOR

*Uwch Brif Nyrs Ward, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda*

**Mae Donna wedi defnyddio dulliau newydd ar gyfer gwella gofal cleifion eiddilwch a dementia.**

Gan ddefnyddio safonau sy'n canolbwyntio ar dystiolaeth i ddatblygu ei thîm yn barhaus, mae hi wedi dangos sut y gall ymyriadau cost isel, llawn dychymyg a weithredir i ganol llif cleifion wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Mae Donna bob amser yn archwilio ffyrdd arloesol o ysgogi ymarfer a gwella diogelwch a chanlyniadau i gleifion ar y ward eiddilwch, lle mae'n uwch brif nyrs. Mae'r rhain yn cynnwys rowndiau ysgytlaeth, hydradu, hunanwasanaeth byrbrydau, garddio, clwb llyfrau a chlwb cinio.

Roedd hi'n ganolog yn y gwaith o sefydlu gweithgareddau wythnosol 'Celf mewn Iechyd' ar gyfer cleifion mewnol sy'n byw gyda dementia yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili. Mae'r rhain yn cynnwys paentio, crochenwaith, gwneud pom-poms a phrintiau, gan greu profiad gwell i'r claf, gyda llai o ddiflastod ac unigedd, a gwell ysgogiad gwybyddol a lles.

Roedd Donna hefyd yn ganolog mewn sefydlu'r Uned Asesu Eiddilwch yn yr Ysbyty ym mis Mai 2024. Mae targedau a pherfformiad wedi gwella gyda Donna yn cydlynu dros 40 o asesiadau / derbyniadau cleifion a 50% ohonynt yn cael eu rhyddhau o'r uned.

Mae Donna yn nyrs feddylgar ac ymroddedig sydd bob amser yn rhoi ei chleifion yn gyntaf. Mae'n barod i rannu ei gwybodaeth helaeth a'i sgiliau ag eraill; mae'n arwain trwy esiampl ac yn fodel rôl ardderchog.

Noddir gan **Fwrdd Iechyd Addysgu Powys**

GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board



## SHANE MILLS

*Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Grwpiau Anabledd Dysgu ac Agored i Niwed, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru*

**Mae Shane wedi bod yn allweddol wrth greu gwasanaeth GIG 111 Cymru Pwyso 2 ar gyfer cymorth iechyd meddwl – sydd wedi gwella'n sylweddol fynediad amserol at wasanaethau.**

Ers ei lansio y llynedd mae'r gwasanaeth wedi recriwtio dros 100 o staff ac wedi derbyn dros 100,000 o alwadau ac mae bellach wedi'i ailadrodd ar draws ffiniau.

Hyfforddodd Shane, y cydnabuwyd ei waith ar y gwasanaeth 111 yn y Senedd, fel nyrs iechyd meddwl bron i 30 mlynedd yn ôl, ar ôl cyfnod yn Lluoedd EM, ac mae wedi gweithio mewn rolau clinigol, rheoli a strategol yng Nghymru a Lloegr.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu'n arwain adolygiadau cenedlaethol ar gyfer y GIG a Llywodraeth Cymru ac mae wedi cyd-ysgrifennu papurau ar feysydd megis gordewdra a thrawma mewn ysbytai iechyd meddwl.

Yn ystod y pandemig Shane oedd cyd-arweinydd y ganolfan gydgysylltu genedlaethol ar gyfer iechyd meddwl, ochr yn ochr â'i waith craidd ym maes comisiynu iechyd meddwl.

Mae'n rhoi pwyslais cryf ar amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant – gan ennill gwobr tîm 'Arian a Mwy' yng Nghynllun Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru.

Mae Shane yn weithiwr proffesiynol dibynadwy ac uchel ei barch, sy'n angerddol am iechyd meddwl, mae ganddo ddull manwl o weithio, parodrwydd i gefnogi eraill, ethig gwaith diflino ac, yn anad dim, gwyleidd-dra.



## BIANCA OAKLEY

*Uwch Ymarferydd Nyrsio Arweiniol Ymgynghorol, Gofal Brys yr Un Diwrnod, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda*

**Mae Bianca wedi datblygu Gwasanaeth Gofal Brys yr Un Diwrnod Cymunedol, sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol am ei lwyddiant, gan ddangos arfer nyrsio ac arweinyddiaeth rhagorol.**

Mae ei hymdrechion wedi rhoi mynediad i gleifion at ofal yn nes at adref, ac wedi lleihau pwysau ar safleoedd ysbytai cyffredinol. Ar hyn o bryd mae 80 o gleifion ar gyfartaledd yn mynychu pob y dydd, gyda hyblygrwydd i ymweld â chleifion yn eu cartrefi eu hunain fel gwasanaeth allgymorth. Mae'r gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y gymuned a'r Bwrdd Iechyd.

Mae Bianca yn cymryd rhan weithredol mewn ymchwil megis profi yn y man y darperir gofal mewn ardaloedd anghysbell, i wella a galluogi gofal diogel amserol i gael ei ddarparu i gleifion yn nes at eu cartrefi, a gyda gweithgorau a grwpiau ffocws ar ddigideiddio portffolios ymarferwyr a thystiolaeth cymhwysedd.

Mae'n weithgar ar fforymau ym meysydd gofal sylfaenol, cymunedol a brys ledled y DU ac yn ddiweddar mae wedi dechrau hyfforddi fel cynrychiolydd dysgu a datblygu a stiwardiaeth ar gyfer yr RCN.

Mae hi'n arweinydd cynnes, dilys, egnïol a gweledigaethol ac yn uwch nyrs arloesol a thrawsnewidiol. Mae ei gwaith wedi diwygio a mireinio'r ffordd y darperir gofal cleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae Bianca yn feddyliwr creadigol a haniaethol sy'n ysgogi canlyniadau, tra'n cydnabod yr angen i wella gofal cleifion, a buddsoddiad mewn datblygiad staff.

Noddir gan **Brif Swyddog Nyrsio Cymru, Llywodraeth Cymru**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



## DR CLARE BENNETT

*Darllenydd mewn Gwella Iechyd a Chyd-gyfarwyddwr Canolfan Gofal Seiliedig ar Dystiolaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd*

**Mae Clare yn arwain rhaglen o ymchwil, arloesi a chyfnewid gwybodaeth sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a phobl ifanc ac i drefniadaeth gwasanaethau iechyd.**

Aeth ei diddordeb cynnar mewn firws diffyg imiwnedd dynol â hi i Rwmania lle bu'n gweithio gyda phlant a babanod, ac yn ddiweddarach gydag oedolion sy'n byw gyda HIV yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Yn dilyn cyfnodau yn gweithio ym maes iechyd rhywiol, imiwnoleg ac fel nyrs ymchwil, symudodd Clare i'w rôl academaidd gyntaf a chyrhaeddodd Gaerdydd yn ddiweddarach yn 2018, ddwy flynedd ar ôl cwblhau ei doethuriaeth.

Mae hi bellach yn cyd-gyfarwyddo Canolfan Gofal Seiliedig ar Dystiolaeth Cymru, Canolfan Ragoriaeth JBI, sef sefydliad ymchwil rhyngwladol sy'n datblygu ac yn darparu gwybodaeth, meddalwedd, addysg a hyfforddiant seiliedig ar dystiolaeth a fwriedir i wella arferion gofal iechyd a chanlyniadau iechyd, gan gyfuno'r dystiolaeth ar draws ystod o feysydd gofal iechyd.

Fe wnaeth llwyddiant fel Cymrawd Teithiol Winston Churchill gadarnhau cydweithio â chydweithwyr yn yr Iseldiroedd ac arwain at ddau lyfr yn ymdrin â rhywioldeb a chydberthynas i blant a phobl ifanc.

Arweiniodd Clare dîm sy'n archwilio ymyriadau digidol ar gyfer iechyd rhywiol pobl ifanc ac mae'n cyd-arwain prosiect ymchwil gwerth uchel ar ofal argyfwng iechyd meddwl digidol a wyneb yn wyneb i blant a phobl ifanc ledled Cymru a Lloegr.

Mae hi wedi parhau i gyfrannu at y maes arweinyddiaeth ac wedi cyd-olygu trydydd rhifyn y llyfr dylanwadol, *Clinical Leadership in Nursing and Healthcare*.



## CATRIN CODD

*Uwch Eiriolwr Nyrsio Proffesiynol, Nyrsio Ardal, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe*

**Mae Catrin wedi arwain rhaglen ddigidol drawsnewidiol a gwobrwyedig i wella asesu, diagnosis a gweithrediad gwella clwyfau yn y gymuned ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.**

Mae cefndir Catrin ym myd plastig, a throsglwyddodd ei gwybodaeth a'i sgiliau i'r maes cymunedol dros ddegawd yn ôl. Ar hyn o bryd mae mewn rôl sy'n newydd iddi hi ac i BIP Bae Abertawe (eiriolwr nyrsio proffesiynol) ac mae'n gadeirydd Fforwm Nyrsys Ardal Cymru Gyfan.

Dechreuodd taith Catrin pan welodd neges drydar yn gofyn am wirfoddolwr i dreialu rhaglen ddigidol ar gyfer rheoli clwyfau. Roedd hi'n ganolog i ddatblygiad a gweithrediad yr ap Minuteful for Wounds i nodi clwyfau sy'n dirywio, yn gwella ac yn marweiddio yn gynharach.

Ers cyflwyno'r system mae cyfraddau iachau wedi gwella ac maent yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 15%, ar gyfer iachâd mewn llai na 12 wythnos. Mae'r cyfraddau iachau yn 22% a 53% ar gyfer nyrsys ardal a chlinigau clwyfau yn y drefn honno.

Mae cydweithio â maes microbioleg wedi gwella stiwardiaeth gwrthficrobaidd, gan ennill gwobr Journal of Wound Care ac arwain at ostyngiadau mewn rhagnodi gwrthfiotigau.

Mae'r gwaith hwn wedi cael canmoliaeth uchel yng Ngwobrau Medisense ac enillodd Wobrau Cynaliadwyedd y Prif Swyddog Nyrsio am arbed ar ôl troed carbon gan leihau'r angen i deithio a dileu'r defnydd o gofnodion papur.

Noddir gan **Brifysgol Caerdydd**

# Gwobr Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru 2024

Gwobr Nyrs y Flwyddyn Cymru yw'r clod pennaf yn y seremoni heno. Mae'r wobr yn cydnabod rhagoriaeth mewn ymarfer proffesiynol ac arweinyddiaeth ragorol. Bydd yr enillydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol a pharhaus i wella gofal cleifion yng Nghymru ac wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu arloesedd ym maes nyrsio. Trwy eu cyflawniadau bydd yr enillydd wedi chwarae rhan sylweddol mewn gwella enw da'r proffesiwn nyrsio.

**Meini Prawf ar gyfer y Wobr:**

- Rhaid i Nyrs y Flwyddyn Cymru fod wedi dangos rhagoriaeth yn eu maes
- Bernir bod eu cyfraniad i gymuned nyrsio a gofal iechyd y genedl yn arwyddocaol
- Rhaid i'r enillydd fod yn fodel rôl ysbrydoledig ar gyfer y gymuned nyrsio a gofal iechyd

Noddir gan **Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre**

GIG Cymru NHS Wales | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | Velindre University NHS Trust

**Cyhoeddir Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru 2024 yn y seremoni wobrwyo.**

## ENILLWYR GWOBR NYRS Y FLWYDDYN RCN CYMRU

**ENILLYDD 2012: LOUISE POLEY** Nyrs Ymgynghorol ar gyfer Camddefnydd Sylweddau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**ENILLYDD 2013: RUTH OWENS** Prif Nyrs Ward, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**ENILLYDD 2014: VERONICA JARMAN** Prif Nyrs Ysbyty Dydd, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**ENILLYDD 2015: CLAIRE HARRIS** Prif Nyrs Ward, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**ENILLYDD 2016: SIAN THOMAS** Nyrs Ymgynghorol (Iechyd Plant), Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

**ENILLYDD 2017: LOUISE WALBY** Hwylusydd Nyrsio Anadlol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

**ENILLYDD 2018: EVE LIGHTFOOT** Nyrs Atal Heintiau Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**ENILLYDD 2019: JEAN SAUNDERS MBE** Nyrs Arweiniol Ceiswyr Lloches, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

**ENILLYDD 2021: KIRSTY JOHN** Prif Nyrs, Carchar Ei Mawrhydi Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**ENILLYDD 2023:**

**TARA REES** Ymarferydd Nyrsio Arweiniol, Gwasanaeth Hepatoleg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd air Fro

*"Mae dod yn Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru 2023 wedi bod yn un o uchafbwyntiau mawr fy ngyrfa. Mae wedi rhoi'r cyfle i mi dynnu sylw at nid yn unig glefyd yr afu ond at rôl nyrs glinigol arbenigol. Mae'r wobr hon wedi agor llawer o ddrysau i mi, gan gynnwys siarad yng Nghyngres yr RCN. Mae hefyd wedi rhoi llawer o gyfleoedd dysgu a rhwydweithio, a gwn y byddant yn parhau trwy gydol fy ngyrfa."*



## YSGOLORIAETH NYRSIO GOFAL YR HENOED HETTIE C HOPKINS, CYMRU

Mae Ysgoloriaeth Nyrsio Gofal yr Henoed Hettie C Hopkins yn darparu ysgoloriaethau i nyrsys yng Nghymru i ddilyn prosiect/cwrs ym maes gofal yr henoed.

Enwir yr Ysgoloriaeth ar ôl un o sylfaenwyr Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, Hettie Hopkins (1919-2012). Roedd Hettie yn nyrs a helpodd i sefydlu Bwrdd RCN Cymru.

Mae'r Ysgoloriaeth yn agored i nyrsys cofrestredig sy'n gweithio gyda'r henoed yng Nghymru ac sy'n dymuno dilyn prosiect neu gwrs sy'n gysylltiedig â'u gofal.

**Mae nyrsio yn yrfa sy'n gofyn am ddysgu a datblygu gydol oes. Gall ysgoloriaeth helpu i gefnogi hyn a derbynnir yn ddiolchgar unrhyw roddion.**



### CROESEWIR POB RHODD

Os hoffech gyfrannu, sganiwch y cod QR neu ewch i https://checkout.justgiving.com/c/3157991 a fydd yn mynd â chi i dudalen Just Giving Donation ar gyfer Ysgoloriaeth Nyrsio Gofal yr Henoed Hettie C Hopkins, Cymru.

**Rhif elusen gofrestredig 509911**

**SGANIWCH YMA I ROI. DIOLCH!**

## YSGOLORIAETH NYRSIO ALUN ISLWYN GILES, CYMRU

Mae Ysgoloriaeth Nyrsio Alun Islwyn Giles yn darparu ysgoloriaethau i nyrsys yng Nghymru i hybu gwyddor a chelfyddyd nyrsio.

Fe'i lansiwyd ym 1989 i anrhydeddu Alun a'r cyfraniad eithriadol a wnaeth i'r proffesiwn nyrsio. Gwasanaethodd Alun fel Cadeirydd Bwrdd RCN Cymru am ddau dymor o bedair blynedd rhwng 1981–1989.

Roedd hefyd yn aelod o Gyngor yr RCN gan ddod yn Gadeirydd Cyngor yr RCN yn ddiweddarach.

Mae'r Ysgoloriaeth yn agored i nyrsys cofrestredig sy'n gweithio yng Nghymru.

**Mae nyrsio yn yrfa sy'n gofyn am ddysgu a datblygu gydol oes. Gall ysgoloriaeth helpu i gefnogi hyn a derbynnir yn ddiolchgar unrhyw roddion.**



### CROESEWIR POB RHODD

Os hoffech gyfrannu, sganiwch y cod QR neu ewch i https://checkout.justgiving.com/c/3295813 a fydd yn mynd â chi i dudalen Just Giving Donation ar gyfer Ysgoloriaeth Nyrsio Alun Islwyn Giles, Cymru.

**Rhif elusen gofrestredig 702403**

**SGANIWCH YMA I ROI. DIOLCH!**